PWYLLGORAU GWEITHREDOL A CHANOLOG

ADRODDIAD MONITRO YMWELIAD

PWNC:	**GWEITHGARWCH YMWELD**
ADRODDIAD:	**SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD/MONITRO A CHRAFFU**
STATWS:	**PAPUR GWYBODAETH**
CYSWLLT:	**SARA NEWNES**
DYDDIAD:	**HYDREF 2018**

DIBEN

Hysbysu Pwyllgorau am weithgarwch ymweld y CIC ac ymatebion y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2018.

CEFNDIR

Cynhaliwyd ymweliadau ag adrannau cleifion allanol ar gyfer apwyntiadau trawma ac orthopedig, ysbytai cymunedol a wardiau acíwt cyffredinol fel rhan o gynllun blynyddol y CIC.

	Tudalen
Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2018 – *wedi cyflwyno adroddiad*	2
Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2018 – *heb gyflwyno adroddiad eto*	8

Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Cleifion Allanol FOU Ysbyty Brenhinol Gwent	**Dyddiad**	9/7/2018

Adborth gan gleifion:

- Ni roddwyd gwybod i bob claf os oedd oedi.
- Nid oedd rhai cleifion yn gwybod ble'r oedd y toiledau gan mai'r unig arwydd oedd yn y brif dderbynfa.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff y staff eu hatgoffa i wneud cyhoeddiadau rheolaidd os bydd oedi mewn clinig. Dylid defnyddio'r bwrdd gwyn i gyfleu unrhyw oedi yn y brif neuadd. Caiff rhagor o fyrddau gwyn eu defnyddio y tu allan i ystafelloedd clinig.
- Mae arwyddion clir wedi'u gosod i gyfeirio cleifion at y toiledau.

Cyrraedd:

- Roedd dryswch ynghylch yr arwyddion gan fod rhai ohonynt yn cyfeirio at 'Gleifion Allanol FOU' ac eraill at y 'Clinig Toriadau ac Orthopedig'. Nid oedd digon o arwyddion yn yr ysbyty i ddod o hyd i'r clinig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylid trafod yr opsiynau i sicrhau bod yr arwyddion yr un peth ledled yr ysbyty a'u bod yn gyson â llythyron cleifion, gyda'r adran Gwaith ac Ystadau.

Yr adran:

- Cafwyd bod biniau gwastraff clinigol mewn ardaloedd cyhoeddus heb eu cloi.
- Ni welwyd unrhyw hysbysiadau tân yn yr uned.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff y biniau gwastraff clinigol eu gwirio yn ddyddiol.
- Cynhaliwyd archwiliad tân yn ddiweddar a gwnaed cais i osod arwydd sy'n 'goleuo' uwchben y brif fynedfa/allanfeydd.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Aelodau o staff:

- Nid oedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod amlwg.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa i wisgo bathodynnau enw. Mae gwiriadau ar hap yn parhau i gael eu cynnal.

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent –C7W	**Dyddiad**	9/7/2018

Y ward:

- Ers symud ward, nid oedd rhai o'r arwyddion yn berthnasol i'w defnyddio ar ddiwrnod yr ymweliad.
- Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ym mynedfa'r ward ac ni chafodd pob claf daflen wybodaeth.
- Nid oedd pob cyfleuster glanhau dwylo yn cynnwys gel dwylo.
- Nid oedd y Dangosfwrdd yn gyfredol.
- Nid oes ystafell ddydd ar y ward ac nid oedd dim ar gael i atal y cleifion rhag diflasu a theimlo'n ynysig.
- Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau sy'n eu galluogi i wneud galwadau ffôn preifat neu dreulio amser gydag ymwelwyr.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylai staff y ward sicrhau bod arwyddion dros dro yn cael eu gosod pan fydd ward yn symud.
- Bydd posteri a thaflenni gwybodaeth ar gael ar y ward a fydd yn cynnwys gwybodaeth am yr uwch-nyrs a rheolwyr y ward, amseroedd ymweld a sut y dylid codi pryderon.
- Dylid gwirio'r cyfleusterau glanhau dwylo yn ddyddiol.
- Dylid diweddaru'r dangosfwrdd yn ddyddiol. Caiff hyn ei wirio'n ddyddiol.
- Mae nifer fach o setiau teledu a radio ar gael i'r cleifion ar y ward. Mae'r trefniadau ymweld yn hyblyg a chaiff ymweliadau eu hannog ac mae troli papurau newydd ar gael. Gall y cleifion ddefnyddio'r ystafell Caplaniaeth.
- Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o ystafell oddi ar y ward lle y gall cleifion wneud galwadau ffôn preifat neu dreulio amser gydag ymwelwyr.

Ardal gleifion:

Dim argymhellion

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Aelodau o staff:

- Nid oedd y staff yn trafod gofal a thriniaeth mewn ffordd gyfrinachol bob amser.
- Dywedodd y cleifion eu bod yn teimlo nad oedd digon o staff ar gael yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa ynglŷn â chyfrinachedd wrth drafod gofal a thriniaeth.
- Caiff y trefniadau staffio eu hadolygu'n ddyddiol, mae staff asiantaeth a staff banc yn cael eu defnyddio ar gyfer swyddi gwag a rhoddir gwybod am ddiffygion i'r Bwrdd Gweithredol.

Cysur a hylendid:

- Nid oedd gan bob claf seiniwr a oedd yn gweithio ac o fewn cyrraedd.
- Ni allai rhai cleifion olchi eu dwylo mor aml ag y byddent yn hoffi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Cafodd staff y ward eu hatgoffa i adael cloch galw o fewn cyrraedd cleifion ac i sicrhau eu bod yn ei hateb yn gyflym. Archebwyd mwy o glychau galw.
- Dywedwyd wrth y cleifion bod cawodau a chynnyrch gwallt ar gael ar eu cyfer. Mae cap gwallt hefyd ar gael i'r cleifion sy'n methu â defnyddio'r cawodau.

Dillad Gwely:

Dim argymhellion

Darparu prydau:

- Roedd y staff yn cymryd gwaed oddi wrth un claf yn ystod y pryd bwyd.
- Nid oedd pob claf yn cael ei annog i ddefnyddio cyfleusterau glanhau dwylo cyn prydau bwyd nac yn cael y cyfle i wneud hynny.
- Nid oedd y cleifion bob amser yn gwybod y gallent gael diodydd a byrbrydau drwy gydol y dydd a'r nos.
- Nid oedd ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod pob claf yn gyfforddus cyn bwyta.
- Nid oedd y staff arlwyo yn gwisgo rhwyden wallt na menig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd amser prydau gwarchodedig.
- Atgoffwyd staff i gynnig cyfleusterau golchi dwylo cyn amseroedd

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

bwyd.

- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd cynnig diodydd a byrbrydau yn rheolaidd. Caiff y diodydd a'r byrbrydau sy'n cynnwys llawer o brotein eu storio yn y gegin ac maent ar gael i'r cleifion.
- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd sicrhau bod y cleifion yn barod i fwyta eu prydau pan fyddant yn boeth.
- Mae'r ward wedi cysylltu â'r rheolwr arlwyo i sicrhau bod staff cynorthwyol y ward yn gwisgo'r cyfarpar priodol.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Prif Ardal Cleifion Allanol Ysbyty'r Sir	**Dyddiad**	17/7/2018

Adborth gan gleifion:

- Roedd rhai cleifion yn teimlo y byddai peiriant dŵr neu beiriant gwerthu yn fuddiol i'r amgylchedd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff hyn ei ystyried gan yr Adran Gyfleusterau.

Cyrraedd:

Dim argymhellion

Yr adran:

Dim argymhellion

Aelodau o staff:

Dim argymhellion

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Cas-gwent – Prif Ardal Cleifion Allanol	**Dyddiad**	20/7/2018

Adborth gan gleifion:

Dim argymhellion

Cyrraedd:

Dim argymhellion

Yr adran:

- Roedd y cortynnau tynnu yn nhoiledau'r dynion a'r menywod wedi'u clymu ac allan o gyrraedd y cleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r staff ddatglymu'r holl gortynnau.

Aelodau o staff:

- Nid oedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod amlwg.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r staff sicrhau bod eu bathodynnau enw yn amlwg pan fyddant ar ddyletswydd.

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

Ymweliad	Ysbyty Gwynllyw – Uned Therapi Morgan	**Dyddiad**	5/9/2018

Adborth gan gleifion:

- Ni roddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i gleifion bob amser am oedi.
- Nid oedd pob aelod o staff yn cyflwyno ei hun i gleifion cyn rhoi unrhyw driniaeth.
- Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r broses cludo cleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff i sicrhau eu bod yn gwneud cyhoeddiadau rheolaidd os bydd oedi yn ystod y clinig. Caiff byrddau gwyn eu defnyddio i arddangos y wybodaeth hon.
- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd cyflwyno eu hunain i gleifion.
- Mae'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer trefnu cludiant i gleifion sy'n cyrraedd felly. Y clinig sy'n gyfrifol am y cleifion hyn.

Cyrraedd:

Dim argymhellion

Yr adran:

Dim argymhellion

Aelodau o staff:

Dim argymhellion

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – Ward B6 – Dwyrain a Gogledd	**Dyddiad**	9/8/2018

- Nid oes gan y ward system dolen sain.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae dau aelod o staff wedi cael hyfforddiant mewn iaith arwyddion a chaiff aelodau eraill o staff eu hannog i'w dysgu. Mae cardiau cyfathrebu ar gael ar y ward ac archebwyd system dolen sain.

Y ward:

- Nid oedd y cleifion wedi derbyn taflen wybodaeth am y ward.
- Dim ond gwybodaeth a oedd yn berthnasol ar gyfer 5 a 6 Awst a gafodd ei harddangos ar y Dangosfwrdd.
- Nid oedd cleifion bob amser yn ymwybodol o'r hyn oedd ar gael i'w hatal rhag diflasu a theimlo'n ynysig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae taflen wybodaeth am y ward/taflen groeso ar gael ac atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhannu gwybodaeth.
- Dylid diweddaru'r dangosfwrdd yn ddyddiol.
- Mae gan y ward drefniadau ymweld agored, mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn Therapi Anifeiliaid Anwes unwaith yr wythnos a chaiff gweithgareddau megis Bingo, gemau pêl a chlwb cinio eu cynnal bob dydd. Mae'r ward wedi derbyn cyllid yn ddiweddar i drawsnewid ystafell yn ystafell ddydd.

Ardal gleifion:

Dim argymhellion

Aelodau o staff:

- Nid oedd y staff yn trafod gofal a thriniaeth mewn ffordd gyfrinachol bob amser.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff i sicrhau eu bod yn cynnal trafodaethau mewn ffordd gyfrinachol. Caiff Clinig Gofalwyr ei gyflwyno fel bod cleifion a'u teuluoedd yn cael y cyfle i drafod triniaeth. Caiff Swyddfa'r Brif Nyrs ei defnyddio i gynnal trafodaethau yn breifat ac yn urddasol.

Cysur a hylendid:

- Nid oedd rhai cleifion yn gallu golchi eu gwallt yn rheolaidd.
- Roedd un claf yn anhapus gyda'r gofal i ddannedd ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff pob claf gymorth i olchi ei wallt os bydd angen. Mae basn golchi symudol ar y ward ar gyfer y cleifion sy'n methu â defnyddio'r cawodydd a chaiff cyflenwad o sychwyr gwallt, tongiau a rolwyr eu darparu i'r cleifion (a rhoddir cymorth iddynt os bydd angen).
- Mae cyfarpar gofal y geg megis potiau ar gyfer dannedd gosod ar gael ar y ward i'r cleifion.

Dillad Gwely:

- Nid oedd y ward bob amser yn cadw digon o ddillad gwely ar y penwythnosau a Gwyliau Banc.
- Byddai'n fuddiol pe bai dillad nos ar gael i rai cleifion ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae'r staff yn ymwybodol o'r broses archebu dillad gwely ac yn uwchgyfeirio pryderon i Reolwr y Ward neu'r Dirprwy Brif Nyrs.
- Anogir cleifion i wisgo yn ystod y dydd. Mae system o drefnu gwasanaethau golchi dillad yn cael ei threialu ar hyn o bryd i alluogi'r wardiau i brynu dillad nos ar gyfer eu cleifion.

Darparu prydau:

- Nid oedd y cleifion yn ymwybodol eu bod yn gallu cael byrbrydau yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Caiff bwydlenni byrbrydau eu cynnig. Bydd y staff yn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o hyn a chaiff y wybodaeth ei hychwanegu at y daflen wybodaeth i gleifion.

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – Ward B6 y Gogledd	**Dyddiad**	24/8/2018

- Nid oes gan y ward system dolen sain.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae gan y ward system dolen sain.

Y ward:

- Nid oedd pob claf wedi cael taflen wybodaeth am y ward.
- Nid oedd nodiadau cleifion yn cael eu rhoi dan glo ac roeddent yn cael eu gadael yng ngolwg pawb mewn ardal gyhoeddus.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae taflen wybodaeth i gleifion ar gael a chaiff ei gosod ym mhob ystafell. Mae hon wedi'i diweddaru â'r wybodaeth sy'n ymwneud â golchi gwallt o ganlyniad i'r adroddiad ymweld.
- Caiff y troli nodiadau ei gadw yn y swyddfa pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Atgoffwyd staff i sicrhau bod aelod o staff yn gyfrifol am y troli bob amser.

Ardal gleifion:

Dim argymhellion

Aelodau o staff:

Dim argymhellion

Cysur a hylendid:

- Nid oedd rhai cleifion yn gallu golchi eu gwallt yn rheolaidd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff i roi cymorth lle y bo angen. Diweddarwyd taflen wybodaeth i gleifion er mwyn nodi bod cyfleusterau gofal gwallt ar gael ar eu cyfer.

Dillad Gwely:

- Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r Polisi Uwchgyfeirio Materion Dillad Gwely.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

Ardaloedd yr Ymwelwyd â Nhw, Statws yr Ymateb a'r Ymateb a Gafwyd

- Mae'r staff wedi cael gwybodaeth ynglŷn â'r weithdrefn uwchgyfeirio os na fydd dillad gwely ar gael.

Darparu prydau:

- Nid oedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau glanhau dwylo cyn prydau bwyd.
- Nid oedd system nodi hambyrddau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y cymorth gofynnol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Nodwyd bod angen i'r staff gynnig cyfleusterau glanhau dwylo i'r cleifion cyn bwyta. Diweddarwyd taflen wybodaeth i gleifion i gynnwys y pwnc hwn.
- Mae gan gleifion siart fwyd a bydd y nyrs yn nodi'r cleifion sydd angen cymorth wrth drosglwyddo i nyrs arall a/neu caiff byrddau 'beth sy'n bwysig i mi' eu gosod wrth ochr y gwely.

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – Ward 3/2 Usk	**Dyddiad**	28/8/2018

- Nid oedd digon o staff ar gael ar ddiwrnod yr ymweliad.
- Roedd oedi cyn rhyddhau cleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Mae llawer o swyddi gwag ond mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio recriwtio drwy amrywiaeth o ffynonellau. Caiff y staff eu hasesu'n fisol, yn wythnosol ac yn ddyddiol. Caiff y staff asiantaeth eu trefnu ar ffurf 'blociau' er mwyn sicrhau parhad staff lle y bo'n bosibl.
- Rhoddir y cynlluniau rhyddhau ar waith pan gaiff cleifion eu derbyn a'u huwchgyfeirio os bydd achosion o oedi yn cael eu nodi. Mae'r cydgysylltwyr rhyddhau yn cyfarfod yn ddyddiol, caiff rowndiau'r ward eu cynnal ddwywaith yr wythnos a nodir y cleifion hynny a fydd yn cael eu trosglwyddo i ysbyty adsefydlu ym Mlaenau Gwent.

Y ward:

- Dywedodd y cleifion bod problemau'n ymwneud â chyfathrebu a chael gwybodaeth gan staff.
- Nid oedd y cleifion wedi cael taflenni gwybodaeth am y ward.
- Nododd yr adborth gan gleifion fod y plant sy'n ymweld â'r ward yn swnllyd ac yn llond llaw yn ystod gwyliau'r ysgol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylid adolygu'r taflenni a'r byrddau gwybodaeth. Mae Prif Nyrs y Ward yn gallu cyfarfod â chleifion/ymwelwyr a chaiff amseroedd y clinigau Gofalwyr eu harddangos.
- Atgoffwyd staff i sicrhau bod cleifion a pherthnasau yn cael taflenni.
- Y ward i adolygu'r amseroedd ymweld.

Ardal gleifion:

- Roedd yr ardal yn anniben â chomodau a fframiau zimmer nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff i sicrhau nad oes annibendod yn y baeau gan ystyried bod angen i'r cleifion allu cael gafael ar unrhyw gymhorthion symudedd sydd eu hangen arnynt yn hawdd.

Aelodau o staff:

- Nid oedd y staff yn cyflwyno eu hunain bob amser cyn darparu gofal

a thriniaeth.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylid trafod ymgyrch "Helo, fy enw i yw ..." yng nghyfarfodydd y ward fel eitem bwysig.

Cysur a hylendid:

- Nid oedd gan bob claf seiniwr a oedd yn gweithio.
- Nid oedd y staff yn ateb seinwyr yn gyflym.
- Nododd cleifion eu bod yn anghyfforddus.
- Nid oedd anghenion hylendid personol cleifion yn cael eu diwallu bob amser.
- Nid oedd cleifion yn cael cymorth yn gyflym os oeddent wedi baeddu eu dillad.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff i roi gwybod am seinwyr nad oeddent yn gweithio. Clerc y ward i wirio'r seinwyr bob dydd. Dylid sicrhau bod seinwyr dros ben ar gael.
- Y staff i sicrhau y gellir cael gafael ar seinwyr yn hawdd. Atgoffwyd staff i ymateb i alwadau yn brydlon.
- Dylid cynnal rowndiau pwrpasol ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu defnyddio cloch galw eu hunain.
- Y staff i hysbysu cleifion o oedi na ellir ei osgoi a thawelu eu meddwl.
- Os bydd yr aciwtedd yn uchel, bydd angen staff ychwanegol er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion eu diwallu.
- Caiff y staff eu hatgoffa i nodi'r ffordd y caiff anghenion hylendid cleifion eu diwallu. Rhoddir cymorth i gleifion i gynnal hylendid personol.
- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd ymyrryd yn gyflym os bydd dillad y claf yn wlyb/wedi'u baeddu. Defnyddir bwndeli gofal croen ar gyfer cleifion sy'n methu â diwallu eu hanghenion ymataliaeth eu hunain. Atgoffwyd staff i gwblhau asesiad ymataliaeth wrth iddynt gael eu derbyn.

Dillad Gwely:

- Nid oedd ansawdd rhai o'r dillad gwely yn addas i gael eu defnyddio.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Atgoffwyd staff o'r protocol i roi gwybod am broblemau sy'n ymwneud â dillad gwely.

Darparu prydau:

- Roedd rhai cleifion yn derbyn eu meddyginiaeth ac roedd llenni rhai ohonynt wedi'u cau felly nid oedd yn bosibl gweld a oedd triniaeth yn cael ei darparu.
- Nid oedd pob claf yn cael y cyfle i ddefnyddio cyfleusterau glanhau dwylo cyn bwyta.
- Nid oedd y dulliau cyfathrebu rhwng y tîm meddygol a staff y ward yn effeithiol ac ni wnaeth rhai o'r cleifion dderbyn eu prydau unwaith yr oeddent yn gallu bwyta.
- Nid oedd y cleifion yn gyffredinol yn ymwybodol y gallent gael byrbrydau yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Trafodwyd pwysigrwydd amser prydau gwarchodedig yng nghyfarfod y ward.
- Dylid nodi'r cleifion sydd angen cymorth wrth fwyta ar ddechrau pob sifft a rhoi gwybod i'r gwirfoddolwyr amdanynt.
- Mae clytiau gwlyb ar gael ac atgoffwyd staff o bwysigrwydd sicrhau bod pob claf yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hylendid dwylo.
- Dylid dogfennu unrhyw newidiadau i gynlluniau gofal yn amserol. Dylai Prif Nyrs y Ward neu'r Nyrs Gyfrifol fynychu pob rownd ward.
- Dylai'r ward nodi'r ffordd orau o drefnu, storio a darparu byrbrydau.

Ar ddiwrnod yr ymweliad gwnaeth y Cyngor Iechyd Cymuned godi sawl pryder brys â'r Bwrdd Iechyd. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- ***nid yw cleifion yn gwisgo breichledi adnabod***
- ***nid yw staff yn ymateb i seinwyr yn gyflym***
- ***diwylliant y ward***
- ***urddas cleifion***

Ymatebodd y Bwrdd Iechyd i'r pryderon hyn ar y diwrnod y cawsant eu codi. Ailadroddwyd y pryderon hyn yn adroddiad y Bwrdd Iechyd a gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

Ers mynd i'r afael â'r materion hyn ar ddiwrnod yr ymweliad:

- Cwblhawyd archwiliadau ar hap o ran y breichledi adnabod.
- Cwblhawyd archwiliadau i edrych ar y meysydd sy'n peri pryder.
- Mae'r Uwch Nyrs yn cwblhau archwiliadau yn wythnosol.
- Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn rheolaidd ar y ward i drafod problemau ac i rannu'r hyn a ddysgir.

Ymweliad	Ysbyty Ystrad Fawr – 2.1 Ward Oakdale	**Dyddiad**	14/09/2018

- Dim ond un aelod o staff a oedd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r system dolen sain.
- Ni roddwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r cleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylai'r staff gysylltu ag adrannau eraill ar y safle os na fyddant yn gallu defnyddio'r system dolen sain. Dylid defnyddio dulliau cyfathrebu amgen e.e. ysgrifennu, byrddau lluniau ac iaith arwyddion.
- Dylai staff y ward fod yn ymwybodol o'r broses o gael gafael ar ddehonglwyr. Dylid sicrhau bod aelodau'r teulu/gofalwyr yn ymwneud â'r gofal.

Y ward:

- Nid oedd mynedfa'r ward yn cynnwys unrhyw wybodaeth am lefelau'r staff nyrsio na'r weithdrefn i wneud cwynion am staff.
- Dywedodd rhai cleifion eu bod yn cael problemau cyfathrebu ar y ward.
- Nid oedd y Dangosfwrdd yn gyfredol.
- Gwelwyd bod silindr ocsigen yn y gornel heb gadwyn i'w gadw yn ei le.
- Nid oedd cleifion bob amser yn ymwybodol o'r cyfleusterau a oedd ar gael i'w hatal rhag diflasu a theimlo'n ynysig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Dylid adolygu'r bwrdd croeso a gosod pecynnau croeso ym mhob ciwbicl.
- Rhaid trafod y dulliau cyfathrebu a'u nodi wrth asesu cleifion. Dylid diweddaru'r cynlluniau gofal a defnyddio'r dull "Dyma fi" wrth roi gofal i gleifion.
- Dylid diweddaru'r dangosfwrdd gwybodaeth yn fisol. Dylai'r arweinwyr gerdded o amgylch y ward er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Dylid nodi dulliau storio priodol. Dylai'r staff sicrhau y caiff y cyfarpar ei ddychwelyd i'r ardaloedd perthnasol pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn ystod rowndiau arweinyddiaeth.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion ynglŷn â'r cyfleusterau a'r

gweithgareddau sydd ar gael i gleifion ar y ward. Dylai'r staff sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ar eu cyfer.

Ardal gleifion:

Dim argymhellion

Aelodau o staff:

- Roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd y lefelau staffio'n ddigonol yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion ynglŷn â'r lefelau staffio. Bydd y ward yn arddangos y manylion ynglŷn â'r staff sydd ar ddyletswydd ar y diwrnod hwnnw.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion

Dillad Gwely:

Dim argymhellion

Darparu prydau:

- Nid oedd y cleifion yn gyffredinol yn ymwybodol y gallent gael byrbrydau yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

- Y staff i hyrwyddo byrbrydau, yn enwedig i'r cleifion sydd â diffyg archwaeth.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2018 – *aros am ymateb i'r adroddiad*

	Disgwyl ymateb
Ward Tyleri Ysbyty Aneurin Bevan	11/1/2019
Ward Risca 3.1 Ysbyty Ystrad Fawr	14/1/2019
Ward C4 Gorllewin Ysbyty Brenhinol Gwent	14/1/2019
Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent	18/1/2019
Uned Asesu Meddygol Ysbyty Brenhinol Gwent	1/2/2019
Uned Asesu Brys Ysbyty Nevill Hall	1/2/2019

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2018 – *heb gyflwyno adroddiad eto*

	Dyddiad yr Ymweliad
Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Nevill Hall	4/10/2018 a 22/10/2018
Canolfan Iechyd Tredegar	15/11/2018
North Celynen Practice	26/11/2018
Meddygfa Glyn Ebwy	6/12/2018
Meddygfa Bryntirion	12/12/2018